Gwynedd a Môn
age Cymru



# Adroddiad Blynyddol

## Ebrill 2016 - Mawrth 2017





www.agecymru.org.uk/gwyneddamon

01286 677711

## Gair gan y Cadeirydd

Mae symud cartref bob amser yn ddigwyddiad o bwys ac yn gychwyn newydd. Fel hyn yr ydym ni yn Age Cymru Gwynedd a Môn yn teimlo am ein cartref newydd yn y Bontnewydd, ac y mae sawl rheswm dros fod yn obeithiol am y dyfodol. Am y tro cyntaf, yr ydym yn berchen ar ein cartref ein hunain, ac y mae ynddo ddigon o le i ganiatau i ni dyfu ac i ehangu ein gweithgareddau.  Ar ben hynny, yr ydym yn falch iawn ein bod yn cartrefu mewn adeilad sydd â'r fath hanes cyfoethog o wasanaethu'r gymdeithas fel "Cartref Bontnewydd". A diolch i arian Ewrop a Llywodraeth Cymru, mae gennym adeilad sydd wedi ei adnewyddu i safon uchel, gyda'r cyfleusterau gorau i hwyluso'n gwaith gyda'r henoed.

Bydd y rhan fwyaf o'n staff yn gweithio o'r adeilad hwn.  Bydd yma le i wahanol weithgareddau, yn ogystal â stafelloedd i'w gosod, ac hefyd i'w defnyddio gan y gymuned leol. Ac wrth inni ddatblygu, bydd croeso i'r cyhoedd i alw i mewn am banad a sgwrs; bydd mwy o fanylion i'w cael yn fuan, a byddwn hefyd yn croesawu unrhyw awgrymiadau gennych chi am yr hyn y carech ei weld yn "Y Cartref".  Rydym fel Age Cymru Gwynedd a Môn yn croesawu sefydlu Ardal Dementia Gyfeillgar Gwyrfai yn ddiweddar, a gobeithiwn y gallwn chware ein rhan wrth ehangu'r cyfleoedd i bobol fyw gyda dementia, heb deimlo eu bod yn cael eu cau allan o gymdeithas.

Edrychwn ymlaen at eich gweld i gyd, a chofiwch alw yn ein siopau – ym Mhorthmadog, Llangefni, y Blaenau a Chaernarfon – lle cewch fwy o wybodaeth am ein holl wasanaethau, a chofiwch o ran rhoddion ein bod yn medru derbyn eitemau mwy yn yr Uned yn Cibyn, Caernarfon hefyd.  Mae fy niolch yn fawr i'r staff a'n holl wirfoddolwyr, ac i aelodau'r Bwrdd, am wneud popeth yn bosibl, ac edrychwn ymlaen at  flwyddyn arall o gydweithio hapus.

Yn gywir,

Dafydd Iwan.



## Nôd ac amcanion yr elusen

**Amcan yr elusen yw:- Creu Cymru Oed Gyfeillgar**
· Hyrwyddo lles pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth i fyw bywyd llawn a bodlon yn eu cartrefi eu hunain.

**Nôd yr elusen yw i :-**
· Geisio creu cyfleoedd i alluogi pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth i fyw bywyd llawn a bodlon yn eu cartrefi eu hunain pe dymunir.
· Gwella cyflwr bywyd pob dydd pobl hŷn a'u gofalwyr.
· Ceisio hyrwyddo datblygiad gwasanaethau yn arbennig i'r rhai sydd yn hŷn ac yn ddryslyd eu meddwl a/ neu sydd yn fregus.
· Cefnogi a hyrwyddo gwasanaethau sydd yn gydgysylltiedig, integredig ac sydd yn defnyddio adnoddau yn effeithiol.
· Hyrwyddo agwedd bositif tuag at bobl hŷn a heneiddio ac i gefnogi agwedd bositif tuag at henaint.
· Hyrwyddo gwasanaethau addas i unigolion sy'n cyrraedd gofynion yr unigolyn yn ei gyfanrwydd.

**Amcanion y dyfodol**
· Datblygu gwasanaethau sydd yn gynaliadwy ar gyfer datblygiad yr elusen yn y dyfodol.
· Darparu gwasanaeth o safon sydd yn addas at ddiben pobl hŷn yn gymesur â'u hanghenion a'u dyheadau.
· Mwy o gydweithio gyda phartneriaid ar draws pob sector.
· Llwyddo drwy'r holl fentrau i sicrhau sylfaen ariannol cadarn gan geisio cael cydbwysedd rhwng annog mentrau newydd a chynnal dadansoddiad cost cadarn.

**Arian wrth gefn**
Mae'r ymddiriedolwyr wedi gosod isafswm o 6 mis fel y swm i fod fel cronfeydd wrth gefn. Yn 2017 mae gennym £627,753 mewn cronfeydd wrth gefn, £262,227 wedi ei gyfyngu i brosiectau, ble mae £365,526 yn incwm heb ei gyfyngu.

Nôd yr ymddiriedolwyr eleni yw neilltuo 6 mis o gronfeydd heb eu cyfyngu a hynny er mwyn talu staff a dyledwyr pe byddai'r elusen yn gwynebu anhawsterau ariannol am unrhyw reswm. Bydd yr ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau gweithredol yn ystod y flwyddyn nesaf o ran y defnydd o gronfeydd wrth gefn.

**Diolchiadau**
Diolch unwaith eto eleni i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr, ein partneriaid, ein noddwyr a chyfranwyr, oll sydd wedi cyfrannu tuag at waith Age Cymru. Gwynedd a Môn.

Mae uwchraddio 'Y Cartref' Bontnewydd wedi bod yn gynllun sylweddol ac rydym nawr fel staff a gwirfoddolwyr yn edrych ymlaen at gydweithio yn y gymuned, er mwyn cefnogi pobl leol yn yr ardal.

Rydym wedi cael blwyddyn brysur unwaith yn rhagor eleni. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer o bobl sydd wedi dod atom am gefnogaeth. Daw yn gynyddol anoddach yn yr hinsawdd ohoni i allu cynnal rhai gwasanaethau. Fel elusen annibynnol, yn gweithio fel mudiad di-elw, ein nod yw darparu gwasanaethau sydd yn rhoi gwerth am arian. Mae ein gwaith elusennol yn ddibynnol iawn ar yr incwm heb ei gyfyngu rydym yn creu drwy ymdrechion ein siopau a'r yswiriant, a'r gefnogaeth gan grwpiau lleol. Diolch i bawb sydd wedi ein cefnogi drwy'r flwyddyn.

Yn olaf, rhaid i mi ddiolch i'r Bwrdd Rheoli, sydd bob amser yn gefnogol i'r gwaith. Heb eu cyfraniad a'u cydweithrediad ni fyddwn wedi cyflawni cymaint yn ystod y flwyddyn.

Eleri Lloyd Jones

Prif Swyddogad

## Ein Gweledigaeth

*I gynnal gwasanaethau sydd yn integredig, yn ddibynadwy, a chyfarch anghenion unigolion o fewn eu cymunedau. Rydym yn ceisio cyfarch yr anghenion gyda gwasanaethau sydd yn cynnig dewis i'r unigolyn, sydd wedi eu teilwra i ofynion y boblogaeth hŷn drwy ofyn 'Beth sydd yn bwysig i chi?' Mae'r weledigaeth yn cydymffurfio gyda gofynion y canlynol :*

- ***Strategaeth Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru 2013-23***
- ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014***
- ***Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru 2014-19***

*Mae llawer o bobl hŷn yn dioddef o gyflyrau hir dymor, nid ydynt yn derbyn y gwasanaethau priodol i gyfarch eu anghenion personol. Mae angen cymorth integredig hirdymor i'w galluogi i fyw bywyd llawn yn eu cymunedau.*

*Mae'r boblogaeth a'r demograffeg yn newid, ac mae anghenion y boblogaeth yn newid cyfeiriad. Wrth i fwy o bobl fyw yn hŷn mae angen adnabod rhan anatod eu cyfraniad yn y gymdeithas yr ydym yn byw ynddi. Mae'n bwysig cael byw bywyd mwyaf cyflawn posib yn ein cymunedau, gyda parch ac urddas, a chynnwys pobl hŷn fel rhan bwysig o'r gymdeithas mae nhw'n dymuno byw ynddi. Mae angen i'n gwasanaethau fod yn gynaliadwy i'r dyfodol, heb greu dibyniaeth, ac yn gefnogol i'r bobl fwyaf bregus.*

*Mae angen newid o ran diwylliant, agweddau, polisi a darparu gwasanaethau i'r dyfodol i ateb gofynion y boblogaeth erbyn hyn. Yn sgil newid demograffig o'r fath ni fu erioed yn bwysicach i adlewyrchu profiad y genhedlaeth hŷn o fewn ein diwylliant.*

*Mae'n rhaid dathlu heneiddio fel trawsnewid cadarnhaol. Mae cymuned sy'n gyfeillgar i oed ac yn gyfeillgar i ddementia yn le y gall pobl hŷn fyw eu bywydau yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol gynhwysol.*

*Yn eu dogfen **'Creu Cymru oed gyfeillgar' (2015) mae Age Cymru** wedi adnabod **wyth** nôd / maes bywyd lle bydd angen canolbwyntio er mwyn cyflawni gofynion y boblogaeth hŷn a chreu cymunedau oed gyfeillgar. **Mae'r meysydd yn cynnwys gwaith, cynhwysiad cymdeithasol, tai a thrafnidiaeth, a gwasanaethau sy'n ymdrin â thlodi a iechyd.***

*Er mwyn gwireddu hyn bydd angen i'r neges dreiddio i bob agwedd o gymdeithas. Dylai bod yn gyfeillgar i oed fod yn gyfystyr â busnesau a chyflogaeth da a gwasanaethau cyhoeddus gwych.  Bydd gwireddu hyn yn sicrhau fod Cymru yn wlad well i heneiddio ynddi, ac yn addas ar gyfer gofynion y dyfodol.*

***Bydd strwythur yr adroddiad blynyddol yma eleni eto yn seiliedig ar ddatblygu ar ein gwaith yn lleol ac ar sail yr wyth nôd / maes bywyd yma.***

## Cyfeiriadau

Cyngor a gwybodaeth ↑ 93%

Eiriolaeth ↑ 44%

Bathodyn Glas ↑ 48%

## Nôd 1:
## Cydraddoldeb, hawliau a chyfranogiad

Mae hawliau a chyfranogiad yn bwysig i bawb. Mae gan bobl hŷn hawl i barch a chyfleoedd cyfartal yn ogystal â mynediad at wasanaethau. Dylai pobl sy'n dymuno gweithio gael yr hawl i wneud hynny, ac yn ddiweddarach gall gwirfoddoli bontio gwagle pan mae'n amser i ymddeol ac yn gyfle i drosglwyddo profiad eang i faes arall.

Mae'r tîm Cyngor a Gwybodaeth yn derbyn cyfeiriadau amrywiol trwy e-byst, cyfeiriadau ffôn, ac gan y sectorau statudol ac anstatudol. Mae bod yng nghanol y dref yng Nghaernarfon yn sicr wedi gwella ymwybyddiaeth pobl o'r gwasanaeth, fodd bynnag, mae hefyd yn golygu bod y rhan fwyaf o gyfeiriadau yn dod wrth i bobl alw i mewn yn hytrach na negeseuon trwy e-bost neu dros y ffôn. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cyfeiriadau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sgil effaith bod yr adran Hawliau Lles yn unig yn cynnal gwiriadau budd-daliadau ar gyfer pobl gyda pecyn gofal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

# A wyddoch chi?

Eleni hawliwyd **£1,660,583** o incwm i gynorthwyo pobl hŷn i dalu am eu gwasanaethau i fyw adref yn gyfforddus

**Nifer y cyfeiriadau**

Wyneb yn wyneb 228

Allan yn y gymuned 144

Ymweliadau Cartref 695

Dros y Ffôn 1,156

E-bost 104

Arall 1,196

Cyfanswm pobl wedi derbyn gwybodaeth neu fudd- daliadau **3,523**



| | Chwarter 1 | | Chwarter 2 | | Chwarter 3 | | Chwarter 4 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffigwr Budd-daliadau (£) | £211,333.48 | | £530,097.03 | | £320,695.52 | | £598,457.05 | |
| | | | | | | | | |
| Math o gyswllt | Chwarter 1 | | Chwarter 2 | | Chwarter 3 | | Chwarter 4 | |
| | Gwiri-oneddol | % | Gwiri-oneddol | % | Gwiri-oneddol | % | Gwiri-oneddol | % |
| Swyddfa wyneb yn wyneb | 39 | *5%* | 57 | *7%* | 55 | *8%* | 77 | *6%* |
| Ymestyn allan wyneb yn wyneb | 5 | *1%* | 47 | *6%* | 65 | *9%* | 27 | *2%* |
| Ymweliad Cartref wyneb yn wyneb | 120 | *15%* | 179 | *22%* | 182 | *25%* | 214 | *18%* |
| Ffôn | 366 | *47%* | 242 | *30%* | 176 | *24%* | 372 | *31%* |
| Ebost | 7 | *1%* | 40 | *5%* | 45 | *6%* | 12 | *1%* |
| Arall | 241 | *31%* | 247 | *30%* | 205 | *28%* | 503 | *42%* |
| | | | | | | | | |
| Cyfanswm | 778 | *100%* | 812 | *100%* | 728 | *100%* | 1205 | *100%* |


Cyn
Yn Ystod
Ar ôl

Eleni bum yn hynod o ffodus i dderbyn grant gan Lywodraeth Cymru i adnewyddu 'Y Cartref' ym Montnewydd fel Prif Swyddfa i Age Cymru Gwynedd a Môn yn ogystal â sefydlu canolfan aml bwrpas i gyfarch anghenion y gymuned leol. Gweledigaeth y Bwrdd a staff yw creu cyfleoedd i wirfoddoli, sefydlu lle i allu rhannu gwybodaeth yn ogystal â man cyfarfod i gael pryd o fwyd ysgafn, derbyn hyfforddiant a chymdeithasu ar gyfer y gymuned leol.

Mae canolfannau heneiddio'n dda eisioes wedi cael eu sefydlu gennym yn Nefyn, Cricieth, Dolgellau, Bala, Llanrug, Brynsiencyn, Amlwch a Llangefni ac felly roedd yn allweddol sefydlu canolfan ar garreg drws yr elusen, yn ardal Arfon o Wynedd.

Mae'r adeilad yn gyfleus i bawb, wedi ei leoli gyferbyn a'r safle bws i mewn ac allan o'r pentref. Mae'r adeilad ei hun yn gartrefol ac yn hanesyddol bwysig i'r gymuned leol, ac felly yn fan cyfarfod bendigedig i greu canolfan aml bwrpas o'r fath.

Byddwn hefyd yn croesawu unrhyw un sydd yn edrych i logi ystafell yn ystod y dydd neu gyda'r nos er mwyn cael defnydd llawn o'r adeilad ac i greu incwm i'r elusen.

**Rhif ffôn i gysylltu: 01286 808 732**

**E-bost: nicola@acgm.co.uk**

**Gwefan: www.agecymru.org.uk/gwyneddamon**



## Nôd 2: Pobl yn cael eu hysbysu a'u cynnwys

**Mae ansawdd bywyd yn dibynnu llawer ar wybodaeth gyfredol er mwyn dewis a gwneud penderfyniadau anodd ar adegau a allai newid bywyd unigolyn. Heb fynediad i wybodaeth gywir, derbyn cyngor ac eiriolaeth o ansawdd uchel gall pobl hŷn fod o dan risg o golli hawliau dynol, hawliau ariannol a risg o'u hynysu a'u gwahaniaethu.**

## Prosiect Eiriolaeth

| | |
|---|---|
| Nifer Cyfeiriadau | 106 |
| Nifer o achosion agored | 28 |
| Nifer o achosion parhaus | 14 |

**Dadansoddiad Sirol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | | | **63** |
| | Arfon | 44 | |
| | Dwyfor | 09 | |
| | Meirionnydd | 10 | |
| | | | |
| **Ynys Môn** | | | **43** |
| | Alaw | 05 | |
| | Cefni | 09 | |
| | Cybi | 17 | |
| | Maelog | 05 | |
| | Marquis | 03 | |
| | Menai | 05 | |

| **Iaith** | |
|---|---|
| Cymraeg | 63 |
| Saesneg | 42 |
| Almaeneg | 01 |



| | |
|---|---|
| LLety diogel ac addas | 68 |
| Diogel ac Annibynnol | 66 |
| Gwell Diogelwch | 35 |
| Gwell hunan barch | 100 |
| Gwell iechyd corfforol/meddyliol | 15 |
| Llai Ynysig/Mwy o gymorth ar gael | 102 |
| Cyllidebu a Rheoli Sgiliau | 33 |
| Rheoli Tenantiaeth/Llety | 69 |
| Llai o straen a phryder | 101 |
| Byw yn annibynnol | 54 |
| Sgamiau | 09 |
| Cwynion cartrefi gofal preifat | 01 |
| Cwynion Gwasanethau (Dŵr/Trydan/Trethi) | 04 |
| Tai Cymdeithasol | 20 |
| Cwynion Gofal Cartref | 07 |
| Gadael yr Ysbyty – cyfarfodydd | 15 |
| Eraill | 20 |

## Achosion yn codi (achosion tymor hir)

| |
|---|
| Problemau gyda paneli solar |
| Problemau gyda materion tai |
| Problemau Gofal cartref |
| Cwynion meddygol |
| Cleient dall sydd angen help |
| Materion Diogelu |
| Cyfarfodydd MDT mewn cartref henoed, cartref yr oedolion neu mewn Ysbyty) |
| Cleient gyda anaf i'r ymenydd angen cymorth |
| Client gyda anabledd corfforol difrifol angen cymorth tymor hir |

***O ganlyniad i arian grant Age UK a Llywodraeth Cymru rydym wedi gallu cefnogi 3,523 o bobl yn ystod y flwyddyn i sicrhau derbyn y budd-daliadau cywir ar gyfer 2016-17. Gan nad yw nifer o'n cleientiaid yn gallu ymweld â'r swyddfa ar gyfer diweddariad o'u hadolygiad neu hawliad o'r newydd (yn bennaf oherwydd problemau symudedd) rydym wedi ymweld â 695 cartref yn ystod y flwyddyn.***



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Mr a Mrs J yn gwpl yn eu 80au gyda rhwydwaith cefnogaeth dda o ran ffrindiau a chymdogion. Roedd y ddau yn flaenorol wedi bod yn derbyn Lwfans Gweini, Credyd Pensiwn, a gostyngiad yn y Dreth Cyngor. Arweiniodd cyswllt â Age Cymru Gwynedd a Môn i swyddog ymweld â'r cwpl i asesu eu sefyllfa a gweld beth ellid ei wneud i'w cynorthwyo.

Datgelodd yr ymweliad cartref fod y ddau wedi cwblhau ffurflen adolygu ar gyfer Lwfans Gweini (AA), mi oedd Mr a Mrs J wedi eu gwrthod am Lwfans Gweini. Pan ddigwyddodd hyn, roedd wedi effeithio ar eu Credyd Pensiwn a gostyngiadau Treth Cyngor. Sylweddololodd y swyddog nad oedd y ffurflenni adolygu wedi'u cwblhau'n gywir a bod llawer o ffeithiau pwysig wedi'u gadael allan o'r ddau gais. Cysylltodd y swyddog gyda'r uned AA a chwblhawyd ceisiadau newydd, gyda thystiolaeth feddygol a'u hanfon at yr uned AA.

Ffoniodd Mrs J y swyddfa ychydig o wythnosau wedyn i hysbysu'r swyddog fod y cais newydd yn llwyddiannus a bod eu dyfarniad wedi'i adfer. Byddai hyn yn rhoi hawl i'r cwpl allu wneud cais am Gredyd Pensiwn unwaith eto a chael cymorth ariannol gyda'u Treth Cyngor.

Roedd Mr a Mrs J wedi ceisio ymdrin â'r ceisiadau rhyngddynt gyda chymorth gan drydydd parti. Pan wrthodwyd eu cais nid oeddent wedi sylweddoli'r effaith y byddai eu budd-dal anabledd yn ei gael ar bopeth arall. Roeddynt o'r farn eu bod wedi cwblhau'r ffurflen cystal ag y gallent, ond yn anffodus wedi gadael gwybodaeth hanfodol allan yn anfwriadol o'r ceisiadau. Roeddent yn ddiolchgar iawn i Age Cymru Gwynedd a Môn am ddatrys y sefyllfa gan nodi na fyddent yn ceisio cwblhau unrhyw ffurflenni yn y dyfodol heb gael cyngor yn gyntaf.

## Fforymau

Mae pobl yn parhau i fynychu a chymryd rhan yn y Fforymau yn rheolaidd. Maent wedi'u cynllunio'n dda, wrth ddilyn i fyny materion y mae'r bobl eu hunain wedi'u cyflwyno. Mae'r wybodaeth a roddwyd gan benaethiaid gwasanaethau a swyddogion prosiect yn gyfredol iawn ac yn rhoi gwybodaeth parhaol i bobl. Mae'n rhoi cyfle i ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn, ac mae nifer o wasanaethau ac Adrannau wedi gwneud defnydd da o hyn, e.e. Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Comisiynydd Swyddfa Pobl Hŷn a Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn a Rheoli Gwastraff. Mae hefyd yn gyfle i wasanaethau cyhoeddus preifat a'r trydydd sector i weithio gyda'u gilydd i gefnogi'r hyn sydd ei angen i gefnogi newid.



## Prosiect Lleisiau Lleol

Rydym yn falch o ddweud ein bod wedi derbyn cyllid i barhau â'r Prosiect Lleisiau Lleol  am flwyddyn arall o fis Mawrth 2017 hyd fis Mawrth 2018. Mae hyn wedi’n galluogi i barhau gyda’r gwaith ymgysylltu a chefnogi Pobl Hŷn i ail-fynd i'r afael â sut mae pobl hŷn yn cymryd rhan mewn prosesau a gwneud penderfyniadau sydd yn bwysig iddyn nhw. Mae cyfoeth o asedau ar draws y sectorau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus. Mae pobl hŷn yn gweld y gwerth wrth dderbyn gwybodaeth a gweithgareddau sy'n cynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol a bod y rhain yn cael eu hategu gan wasanaethau y sector gyhoeddus a'r trydydd sector.

## Cyngor Pobl Hŷn Môn

Mae'r Cyngor yn parhau gyda’u gweledigaeth o greu Ynys lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi a’u parchu ac yn ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd a chymunedau ble maent yn byw. Mae hyd at 15 aelod, sy’n cynnwys trawsdoriad da o gynrychiolwyr grwpiau ac unigolion o bob rhan o'r Ynys. Mae'r aelodau'n gwbl ymrwymedig i leisio eu meddyliau a'u cwestiynau ac am fynd â materion yn eu blaen ar ran Pobl Hŷn Ynys Môn; materion megis Cludiant, Angylion Tech, Gofal yn y Dyfodol a Chefnogaeth yn y Gymuned.



# Nôd 3: Cynhwysiad Cymdeithasol



Mae bod yn gymdeithasol ynysig yn cael llawer o effeithiau niweidiol ar bobl hŷn, gan gynnwys unigrwydd. Mae rhai pobl yn mynd am ddyddiau neu wythnosau heb gyfarfod na siarad gyda pobl eraill. Gall hyn fod mor niweidiol yng nghyswllt iechyd ac ysmygu 20 sigarét mewn diwrnod.

Mae'n hanfodol fod gan bobl hŷn gyfleoedd i ryngweithio âg eraill a chael mynediad at weithgareddau cymdeithasol a chyfleoedd i wirfoddoli a dysgu sgiliau.

Mae angen i'r unigolyn ymwneud a phenderfyniadau am y gofal maent yn ei dderbyn ac mae'n bwysig blaenoriaethu'r camau ataliol rhag creu dibyniaethEr mwyn darparu gofal cymdeithasol sy'n wirioneddol effeithiol ac sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn, mae angen mwy o wasanaethau integredig gyda iechyd a gofal cymdeithasol.

## Canolfannau Heneiddio'n Dda Bangor a Chaernarfon

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn yn chwilio'n barhaus am ffyrdd i gynorthwyo pobl hŷn i aros yn annibynnol a iach. Rydym yn ceisio defnyddio dulliau o hwyluso mynediad i fannau cyfarfod sydd hefyd yn darparu gweithgareddau o'u dewis.

Rydym ar hyn o bryd yn y broses o lunio amserlen o weithgareddau o'r ganolfan newydd yn y Bontnewydd. Edrychwch allan am restr gyfredol o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar ein Gwefan. www.agecymru.org.uk/gwyneddamon

Mae dau leoliad o’r fath wedi cael eu sefydlu ers ddiwedd 2016, un yng Nghanolfan Ieuenctid Maesgeirchen, Bangor ac yr ail yng Nghwt Sgowtiaid yn Maesincla, Caernarfon. Mae hyn mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a Chymunedau’n Gyntaf.

Dechreuodd y gweithgareddau ym Mangor gyda sesiynau Technoleg Gwybodaeth (TG) yn cael eu darparu ar foreau Mercher, sesiynau cadw’n heini i ddilyn ac yna cafwyd sesiynau Bwyta’n iach yn ystod y prynhawn. Eleni cysylltodd Richard Williams o Fangor â ni, a oedd yn awyddus i gynnal sesiynau ‘Ukulele’. Er mai grŵp bach sydd yn mynychu’r sesiwn ar hyn o bryd, mae’r sesiynau Ukulele yn cael eu cynnal pob bore Mercher yng Nghanolfan Ieuenctid Maesgeirchen. Maent yn chwilio am aelodau newydd!

Dilynodd sesiynau yng Nghwt Sgowtiaid Maesincla batrwm tebyg gyda Chadw’n Heini ar foreau Mercher ac yna sesiynau Bwyta’n Iach i ddilyn. Mae dosbarthiadau TG pob bore Gwener, gydag unigolion yn dod a’u dyfais eu hunain er mwyn dysgu sut i’w defnyddio. Cafodd y rhai oedd heb offer fenthyg gliniadur gan Age Cymru Gwynedd a Môn. Mae dau o’r unigolion sydd yn mynychu, sydd yn 79 a 84 mlwydd oed wedi dod mor fedrus fel y gallant ddefnyddio “Skype” i gysylltu gydag aelodau’r teulu!

Pan ddechreuodd June o Gaernarfon, a fydd yn 84 mlwydd oed ymhen dim fynychu’r ymarferion cadair ysgafn, doedd hi prin yn gallu cerdded heb ffon. Erbyn hyn dywedodd ei bod yn gallu cerdded heb gymorth ac yn delio gyda’r grisiau yn ei chartref yn rhwydd.



# Heneiddio'n Dda ym Mlaenau Ffestiniog 2016/17

Cafodd y grwp flwyddyn weithgar a phleserus. Gan gyfarfod yn y Ganolfan ar Ddydd Mercher, croesawyd nifer helaeth o bobl 50 oed a throsodd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau gan gynnwys Tai Chi, Bowlio dan dô, Celf, Ymarfer cadair a chwarae cardiau.

Rhoddodd y gweithgareddau gyfleoedd i bobl gymeryd rhan i fod yn greadigol, i gynnal eu hiechyd drwy weithgaredd corfforol ar y cyd ac i fwynhau ychydig o gystadleuaeth iach rhwng ffrindiau. Cafwyd cyfle hefyd i bobl leol i rannu eu cyfoeth o wybodaeth a phrofiad o'r Blaenau gyda pobl newydd i'r ardal, gan eu croesawu i'r gymuned fywiog a chyfeillgar sy'n bodoli yma. Yr un pryd rhannwyd atgofion wrth 'brocio'r cof'.

Yn ogystal a'r gweithgareddau rheolaidd, croesawyd ymwelwyr newydd gyda gwybodaeth helaeth. Rhannodd Meilyr o'r Dref Werdd ganlyniadau eu gwaith yn y prosiect cymunedol, rhoi cyngor a chefnogaeth ar arbed ynni a chael mynediad at gynllun NEST. Bu Gina o Dementia RED yn hybu gwaith eu gwasanaeth gan roi gwybodaeth am y gwasanaethau a chefnogaeth i'r bobl sydd yn byw gyda dementia. Ymwelodd Bethan o Age Cymru Gwynedd a Môn bob deufis i roi mynediad at gyngor a gwybodaeth am nifer o wasanaethau i bobl 50 oed a throsodd. Daeth Naeem, un o'r fferyllwyr lleol i siarad am y gwasanaethau sydd ar gael yn ein fferyllfeydd lleol.





Mwynhawyd nifer o weithgareddau allanol gyda thrip i'r Galeri yng Nghaernarfon i weld Bryn Fôn, ymweliad âg Oriel Ynys Môn i weld arddangosfeydd gan Charles Tunnicliffe a Syr Kyffin Williams. Cafwyd pryd o fwyd da wedi'r Dolig yn y Grapes, Maentwrog, tra manteiswyd ar bartneriaeth newydd a chyffrous gyda'r busnes lleol CellB i gael mwynhau ffilm yn y prynhawn yn y sinema - "Hidden Figures" a "Going in Style". Dathlwyd Dydd Gwyl Dewi gyda chwis Cymreig a Tê prynhawn o *Fara* brith a chacen gri.

Tra bod y rhan fwyaf o weithgareddau'r grwp yn hunan-gynhaliol gyda chost fechan am gymryd rhan, cymerwyd rhan mewn sawl dull o godi arian. Cafodd y grŵp stondin a thombola yn y Noson Oleuo yn Rhagfyr, tra yn ôl yn mis Tachwedd mentrodd dwy aelod o'r grwp i 'zipio' yn y Llechwedd. Gwnaed hyn yn bosib drwy rodd caredig o docynnau gan Zipworld.

Ym mis Mawrth dyfarnwyd grant o £4,000 gan y Loteri Fawr. Bydd hyn yn caniatau i'r ganolfan ymestyn ei gweithgareddau yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae Heneiddio'n Dda Blaenau Ffestiniog yn edrych mlaen at groesawu aelodau 'hen' a newydd drwy gydol 2017/18.

## Clybiau Heneiddio'n Dda

| | |
|---|---|
| Y Ganolfan Brynsiencyn - Bob Dydd Llun, Mercher a Gwener | Y Ganolfan Y Bala - Bob Dydd Iau |
| Encil y Coed Cricieth - Bob Dydd Mawrth | Y Ganolfan Nefyn - Bob Dydd Llun, Mercher a Gwener |
| Abersoch - Dydd Gwener cyntaf o bob mis | Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth—Dydd Gwener |
| Hafan Elan Llanrug - Bob Dydd Mawrth, Mercher a Gwener | Clwb Rygbi Dolgellau - Bob Dydd Llun, Mercher a Gwener |
| Y Ganolfan Blaenau Ffestiniog - Bob Dydd Mercher | |



Paratowyd
1,814
o brydau bwyd yng nghlwb cinio Penygroes

## Clwb Cinio



Yn dilyn eu hymdrechion gwych yn casglu rhoddion bwyd ym Morrisons Caernarfon, cafodd Erin ac Efa Pritchard gyfle ym Mis Rhagfyr i roi pecynnau bwyd allan fel anrhegion Nadolig i drigolion lleol yn Llys yr Eifl, Caernarfon.








Clybiau Dydd






| Lleoliad | Dydd(iau) yr wythnos | Cost | A oes cinio ar gael? | A oes cludiant ar gael? |
|---|---|---|---|---|
| **Hafan, Ysgol Gymunedol, Moelfre, Ynys Môn** | Dydd Llun a Gwener | £10 | Oes | Oes am £2 y person o fewn 5 milltir |
| **Clwb y Traeth Hafan Deg, Abermaw/Bermo, Gwynedd** | Dydd Mawrth | £10 | Oes | Oes am £2 y person o fewn 5 milltir |
| **Clwb Cadwgan, Pentre Uchaf, Dyffryn Ardudwy, Gwynedd** | Dydd Iau | £10 | Oes | Oes am £2 y person o fewn 5 milltir |

## Men’s Sheds

Nod y prosiect yw creu awyrgylch gyfforddus a diogel i ddynion gael cyfle i gymdeithasu, dysgu a rhannu sgiliau ac osgoi bod yn unig.

Agorwyd *Men’s Shed* yng Nghaernarfon yn Mis Chwefror 2017. Ers hynny mae’r prosiect wedi datblygu i fod yn llwyddiannus iawn gyda nifer aelodau yn parhau i gynyddu o wythnos i wythnos.

Datblygwyd partneriaeth gadarn gyda Warws Werdd – Antur Waunfawr. Yma mae’r dynion wedi cael defnydd o’r gweithdy a hefyd ennill cydberthynas gydag aelodau o Antur Waunfawr.

Mae prosiect garddio hefyd bellach wedi cael ei sefydlu. Derbyniwyd rhan o randir gan Ysgol yr Hendre lle y bydd y dynion yn plannu tatws, ffâ a moron. Hoffai plant yr ysgol ymuno a’r hwyl sydd yn creu cyswllt arbennig rhwng y cenedlaethau.

Mae gennym 13 aelod sydd yn mynychu’n wythnosol a hynny fwy nac unwaith yr wythnos. Mae’r niferoedd yn cynyddu wrth greu mwy o gyhoeddusrwydd. Rydym yn agored 4 gwaith yr wythnos ar hyn o bryd.

Dywed un o aelodau’r sied *“Mae yn le i gwrdd a phobl, rhannu yr hyn sydd ganddom yn gyffredin ac i wneud cysylltiadau.”*





Dywedodd aelod arall *"Pan fyddai yn ddioddef o bryder, mae bod yn y sied gyda'r hogiau yn gwneud i mi deimlo'n gyffyrddus a rhan o deulu."*

Tra yn y sied bydd y dynion yn adeiladu meinciau a phethau tebyg allan o baledi coed. Mae dodrefn sydd wedi cael eu rhoi i'r elusen hefyd yn cael eu hadnewyddu a'u gwerthu ymlaen yn ein siopau lleol.

## *Astudiaeth Achos*

Roedd Mr M yn oruchwyliwr contract hunangyflogedig mewn Gorsaf Ynni Niwclear. Roedd yn ddyn gweithgar oedd yn brysur yn gyson ond ...

Yn anffodus cafodd Mr M strôc pan oedd yn 42.

O ganlyniad i hyn roedd Mr M yn gaeth i'w wely ac yn derbyn gofalwyr bob dydd ac arweiniodd iddo golli ei annibyniaeth.

Gyda chefnogaeth ei deulu, ffisiotherapi ac apwyntiadau ysbyty cyson, cryfhaodd Mr M. Dechreuodd gymryd rhan mewn grwpiau anabledd ac ail ennill ei hyder ac ymgysylltu gyda phobl unwaith eto.

Erbyn hyn, mae Mr M yn llawer cryfach, mae yn dioddef o arthritis dirywiol sydd yn achosi problem iddo o hyd, ond mae cael mynd allan i gymdeithasu yn hynod o bwysig iddo gynnal ei annibynniaeth.

## Rhyw

60%

40%

"Mae wedi fy ngalluogi i fyw ar ben fy hun yn fy nghartref fy hun gyda chymorth efo pethau megis glanhau tŷ, siopa, golchi a garddio, gwasanaeth personol fel torri gwinadd traed"

**1,744** o wahanol sesiynau gweithgareddau wedi cymeryd lle yng Ngwynedd ac Ynys

Sgoriodd **82%** o'n cwsmeriaid y gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth yn **10/10**

“Wedi gwneud ein bywyd mwy cyfforddus”

**75-84**

Oedran cyfartalog y bobl yr ydym wedi'u cynorthwyo

3,844 Sesiynau Clybiau Cinio a Gofal Dydd wedi eu cynnal

Mae 83 o dripiau wedi cael eu trefnu

**3,523 o gysylltiadau wedi eu gwneud gydag unigolion**

Rydym wedi rhoi cymorth i 306 o bobl wrth gynnyddu eu incwm gan gyfuno **£1.6 miliwn** y flwyddyn

129 o gyfeiriadau wedi eu gwneud i’n gwasanaeth cyfeillio

642 dosbarthiadau gwahanol cadw’n heini wedi cael eu cynnal

267 sesiynau gwahanol grefftau wedi cael eu cynnal

# Nôd 4: Gofal cymdeithasol o ansawdd da

Mae’n bwysig fod pobl yn derbyn y gefnogaeth sydd ei angen er mwyn cadw’n annibynnol, mae’r gwaith ataliol yma yn hanfodol er mwyn cynaladwyedd gwasanaethau i’r dyfodol. Gall mesuriadau ataliol i ymdrin ag anghenion personol fod o fudd i fwy o bobl am gyfnod hwy ac am gost llai yn y pen draw.

Yn aml bydd pobl hŷn sydd ag anghenion o ran gofal yn dibynnu ar aelodau o’r teulu a ffrindiau, ac mae llawer o’r rhain yn bobl hŷn eu hunain. Gall bod yn ofalwr gael effaith arwyddocaol ar fywydau nifer gynyddol o wirfoddolwyr sy’n ymgymryd â’r rôl yma. Nid pawb sydd efo’r dewis o ddibynnu ar ffrindiau neu aelodau o’r teulu i’w helpu.

## Gofal Cartref

Mae pobl yn dymuno aros gartref am eu gofal dyddiol erbyn hyn, a parhau i fod yn rhan o’r gymdeithas maent yn byw ynddi. Mae cael pecyn glanhau yn galluogi pobl aros adref pan mae’r gwaith glanhau yn mynd yn fwrn, ac yn gyfle i bobl dderbyn cefngaeth cychwynnol ac aros yn anibynnol. Mae’r gofalwyr yn galluogi pobl dderbyn gwybodaeth gyfredol o’r cyfleusterau yn eu cymuned, boed yn ganolfan heneiddio’n dda neu glwb cinio yn ogystal a rhoi cefnogaeth ychwnaegol fel siopa, neu ymweliad i’r ysbyty neu ddoctor pan fo angen.

Mae’r gweithwyr yn gymwys i roi gwasanaeth personol i unigolion yn y cartref, wrth roi cymorth i gael bath neu ymolchi.

Mae’r gweithwyr yn adnabod eu defnyddwyr ac yn parchu eu dymuniadau bob amser, mae cael dilyniant a cefnogaeth yr un gofalwr sy’n adnabyddus i’w cleient yn rhan anatod o’r gwaith.

Mae cost ar gyfer y gwasanaeth yma.





## Gofal Dydd

Mae Gofal dydd yn parhau i fod yn rhan bwysig o waith Age Cymru Gwynedd a Mon yn y ddwy sir. Rydym yn adnabod y gwerth mae pobl yn gael wrth gymdeithasu âg eraill yn eu cymunedau sy'n lleihau iselder ac unigrwydd. Mae gwasanaeth gofal dydd ar gael yn Dyffryn Ardudwy, Bermo a Moelfre ar hyn o bryd.

Mae 25 yn mynychu'n wythnosol a digon o le i bobl newydd os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â'r swyddfa.

## Siopa

Mae'r Cynllun Siopa, sydd wedi cael ei ariannu drwy gronfa Cefnogi Pobl Cyngor Gwynedd yn parhau yn boblogaidd iawn gyda defnyddwyr. Mae'n galluogi pobl i wneud eu siopa bwyd wythnosol o'u dewis, a chael bwyd maethlon yn y tŷ. Mae'r gwasanaeth yn gyfle i bobl fynd allan, cael cymorth gyda'u siopa o'u dewis a chael cyfle i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Mae 25 o bobl yn derbyn y gwasanaeth ar hyn o bryd, a rhestr aros ar gyfer y rhai sydd angen y gwasanaeth i'r dyfodol agos yn dilyn llwyddiant y cynllun.

## Gofal Traed

Mae rhai o'r gweithwyr yn y gymuned yn gymwys i drin traed, ac wedi derbyn hyfforddiant gan staff iechyd i wneud hynny. Mae trin traed a thorri ewinedd yn gallu mynd yn anodd wrth i ni fynd yn hŷn, mae trin traed yn gallu atal codymau yn ogystal a cadw golwg ar gyflwr iechyd cyffredinol unigolyn.

Mae nawr syrjeri ar gael unwaith y mis yn Bontnewydd ac os hoffech chi dderbyn gwasanaeth, ffoniwch 01286 685 911 i wneud apwyntiad.



# Nôd 5: Gofal iechyd o ansawdd da

Mae'r boblogaeth hŷn yng Nghymru yn byw yn hirach, a dylai hyn fod yn achos i ddathlu yn ein cymdeithas. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu cynllunio er mwyn cefnogi lles ac annibyniaeth pobl gan ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn yn hytrach na thrin salwch sy'n benodol i gyflwr.
Mae pobl yn pryderu ynglŷn â gofal iechyd mewn perthynas â heneiddio, yn benodol y cyflwr dementia a symudedd. Gall anawsterau o ran cael mynediad i wasanaeth gofal sylfaenol fod yn rhwystr i bobl hŷn yn aml.

## Ardal Dementia gyfeillgar

Mae Bontnewydd yn gweithio tuag at fod yn gymuned dementia gyfeillgar. Mae cymuned o'r fath yn un gyda dealltwriaeth o'r cyflwr, ac yn un lle mae'r gymuned gyfan yn cefnogi a rhoi chymorth i deuluoedd sy'n byw gyda dementia yn eu cymuned leol. Mae aelodau staff Age Cymru Gwynedd a Môn wedi eu hyfforddi i fod yn Bencampwyr Dementia, i siarad am y cyflwr ac effaith dementia ar unigolion, ac i roi sesiynau 'Ffrindiau Dementia' i bobl. Ein nod yw cael yr holl staff cyflogedig yn Ffrindiau Dementia erbyn diwedd 2018.

## Cadwyn Môn


Cynllun cyfeillio am 5 mlynedd ar Ynys Môn yw Cadwyn Môn. Ariannwyd y cynllun drwy'r Loteri Genedlaethol a bu yn llwyddiant mawr i'r rhai oedd yn derbyn gwasanaethau, yn ogystal a'r gwirfoddolwyr oedd yn rhedeg y cynllun. Er fod yr arian wedi dod i ben ym mis Mawrth 2017 mae'n dda dweud fod y gwaith yn mynd yn ei flaen, a'r gwirfoddolwyr yn parhau i gefnogi y bobl sydd angen ffrind i'w tywys allan o bryd i'w gilydd. Mae Clwb Cadwyn yn cyfarfod unwaith y mis i'r rhai sydd wedi, ac yn parhau i dderbyn cefnogaeth cyfeillio.


**Ystadegau am y 5 mlynedd — Cyfeiriadau 686**



## Gwirfoddoli

Holwyd gwirfoddolwyr am eu profiadau o wirfoddoli ar y cynllun ac i ba raddau wnaeth hyn gael effaith ar eu bywydau. Mae ffigwr 2 yn cynnwys sylwadau a themâu ddaeth allan o'r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda'r gwirfoddolwr.




Rhesymau dros gymryd rhan
Profedigaeth neu golled yn arwain at unigrwydd neu unigedd
Cwmni i fynd allan
Teulu'n awgrymu cyfeillio fel opsiwn
Problemau Iechyd/ symudedd yn effeithio ar fywyd cymdeithasol
Gwasanaeth Cadwyn Môn
Effaith seicolegol
Effaith ar ffordd o fyw
Hapusach / teimlo'n well
Mwynhâd
Gwell rhagolwg ar fywyd
Rhywbeth i edrych ymlaen ato
Mwy o hyder
Ymuno â grwpiau / gweithgar-eddau
Defnyddio trafnidi-aeth gyhoeddus
Gwneud ffrindiau newydd / ail-gynnau rhai o'r gorfennol
Ail ddechrau neu ddysgu hobi neu sgiliau newydd
Gwell iechyd corfforol a symudedd

## Unigrwydd

Mae mesur unigrwydd de Jong Gierveld a Van Tilburgh yn dangos fod rhan fwyaf o unigolion 85.4% yn datgan eu bod yn unig cyn cychwyn y gwasanaeth cyfeillio, a 27% yn mesur unigrwydd difrifol. Mae newid arwyddocaol rhwng y man cychwyn a'r dilyniant gyda gostyngiad o 39.33% mewn unigrwydd yn cael ei ddatgan gan unigolyn.


## Unigedd

Defnyddiwyd Graddfa R.hwydwaith Cymdeithasol Lubben ar gyfer mesur lefel rhwydwaith a chefnogaeth sydd or gael i unigolion. Mae'r sgôr o'r man cychwyn yn isel iawn (10.34).


Defnyddiwyd y trobwynt clinigol o 12 i adnabod unigolion mewn perygl o arwahanrwydd eithaf (gor ddibynnol o'r un person neu heb unrhyw gefnogaeth o gwbl). Ar draws y mesur roedd 62.1% gyda sgôr o 12, ac fel canlyniad yn cael ei gysidro mewn perygl o arwahanrwydd eithaf. Ar ddiwedd y cyfnod cyfeillio mae newid sylweddol rhwng y ddau fesur ar gyfer cyswllt gyda theulu a ffrindiau.

## Cysylltiadau cymdeithasol


Ar ddiwedd y cyfnod gofynnwyd i unigolion ateb nifer o gwestiynau ynghylch â i ba raddau wnaeth gwasanaeth cyfeillio effeithio ar eu bywyd cymdeithasol:





Ydych yn teimlo eich bod yn gweld mwy o bobl?





Ydych wedi gwneud ffrindiau newydd?





Ydych chi'n gwneud gweithgareddau newydd?




Ydych chi wedi ail gychwyn gweithgareddau?




Ydych chi'n mynychu clwb/dosbarth/grŵp cymdeithasol newydd?




Ydych chi'n teimlo'n fwy hyderus?

Ydw Na

## Nôd 6: Cynhwysiad Ariannol

Heddiw yng Ngymru, amcangyfrifir bod 84,000 o bobl hŷn yn byw mewn tlodi, neu 14% o bawb sy'n 65 oed neu'n hŷn. Mae incwm digonol yn ategu llawer o nodweddion hanfodol bywyd beunyddiol. Gall canlyniadau prinder arian fod yn ddifrifol ar gyfer pobl hŷn. Gall fod ag incwm annigonol waethygu problemau unigrwydd ac unigedd a pheryglu iechyd a lles.

Mae nifer sylweddol o bobl hŷn yn ddibynnol ar Bensiwn y Wladwriaeth fel eu unig ffynhonnell o incwm. Mae llawer o rai eraill yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd neu bensiynau bach preifat neu alwedigaethol i ategu hyn.


Un ffactor amlwg yw y diffyg gwybodaeth ymysg elfen o'r boblogaeth hŷn am y cymorth ariannol ychwanegol sydd ar gael iddynt ac heb ei hawlio ac rydym yn rhagweithiol iawn fel mudiad er mwyn ymateb i hyn.



## Gwasanaeth Cyllid Iach

Yn Mehefin 2016 lansiwyd Gwasanaeth Cyllid Iach Age Cymru Gwynedd a Môn. Mae hwn wedi ei ariannu drwy gymorth ariannol Comic Relief ac yn darparu dwy Swyddog Cyllid Iach. Mae'n wasanaeth sydd yn anelu i gefnogi ac annog unigolion 50 oed a throsodd i'w paratoi i allu adolygu a delio gyda'u cyllid personol.

Bu blwyddyn gyntaf y prosiect yn llwyddiant a darparwyd sesiynau cyngor a gwybodaeth 1:1 i 181 o unigolion yn ogystal â mynd ati i roi cyflwyniadau mewn grwpiau a chlybiau lleol ar gyllido iach.



## Nôd 7: Cartrefi a chymunedau

Gall y nodweddion sy'n gwneud i le fod yn ddymunol i fyw ynddo newid wrth i bobl fynd yn hŷn. Mae'n hanfodol fod yr amgylchedd adeiledig yn ein cymunedau yn oed gyfeillgar fel ei fod yn addas ar gyfer pobl o bob oedran.

Mae'r gallu i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol, gyda mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau lleol yn anadl einioes ar gyfer llawer o bobl hŷn. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd anghenion tai pobl yn newid wrth iddynt heneiddio, felly mae'n bwysig fod pobl hŷn yn cael mynediad at ystod o opsiynnau tai o ansawdd da.

Rhaid sicrhau hefyd ein bod i gyd yn derbyn y cyfle i fod yn weithgar yn ein cymuned yn hytrach na chael ein rhwystro, boed hynny yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, cymryd rhan mewn gwaith cyflogedig, neu wirfoddoli.

## Cartrefi Diogel—Ymgyrch Cadw'n Gynnes dros y Gaeaf

Dros fisoedd y Gaeaf, buom yn rhagweithiol yn cylchredeg gwybodaeth i glybiau ac unigolion ar sut i gadw yn ddiogel dros y Gaeaf ac hefyd i'w cynorthwyo i geisio am ostyngiad yn eu biliau gwresogi dros y gaeaf, a hynny drwy ein Cynllun Cyllid Iach.



Buom yn cydweithio hefyd mewn partneriaeth gyda SP Energy Networks gan lwyddo i ddosbarthu 50 o becynnau argyfwng "Winter Warmer" i'r rhai fwyaf bregus o fewn ein cymunedau lleol.

Unwaith yn rhagor yn 2016-17 llwyddwyd i sicrhau ariannu gan EoN ar gyfer ymgymryd a gwiriadau o fewn cartrefi pobl Gwynedd a Môn er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac hefyd bod eu cartrefi yn fwy ynni effeithlon. Llwyddwyd i gwblhau 70 gwiriad yn ystod y cyfnod yma.

## Gwirfoddoli - galluogi pobl i fod yn weithgar yn eu cymuned

Rydym yn ymfalchio yn ein gwirfoddolwyr ac rydym yn llawn gydnabod eu cyfraniad i sicrhau llwyddiant ein gwasanaethau amrywiol a hefyd dyfodol y mudiad.

Mae ein gwirfoddolwyr yn helpu yn ein swyddfa, siopau, caffis ac allan yn y gymuned. Caiff ein gwirfoddolwyr, fel ein staff, eu recriwtio mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn ddiogel i ddarparu ein gwasanaethau. Fe'u hyfforddir ac fe'u goruchwylir yn rheolaidd.

**Heb os, heb fewnbwn ac ymroddiad ein gwirfoddolwyr, ni fyddwn yn gallu cyflawni gwaith yr elusen. Mae nifer ein gwirfoddolwyr swyddogol yn 143, gyda cyfanswm oriau sydd gyfwerth â £472,524 yn nhermau ariannol yn ystod y flwyddyn.**

## Caffis

Mae Age Cymru Gwynedd yn cynnal gwasanaeth Caffi yn Nghanolfan Llysoedd Caernarfon ac hefyd mewn partneriaeth gyda Cyngor Dinas Bangor yng Nghaffi Hafan wrth ymyl prif arosfan bws Bangor.

Mae Caffi Hafan wedi sefydlu ei hun ym Mangor ers rhai blynyddoedd bellach fel man cymdeithasu gwerth chweil i'r boblogaeth 50 oed a throsodd yn lleol. Yn ogsytal â bod yn gaffi a lle i gael seibiant, gellir gwneud defnydd o'r offer cyfrifiadurol yno ac hefyd bydd digwyddiadau arbennig yn cymryd lle er mwyn hyrwyddo ein gwasanaethau amrywiol a chael ychydig o hwyl wrth gwrs!

Diolchwn i'r cwsmeriaid ffyddlon hynny sydd yn dod draw yn rheolaidd i Caffi Hafan ond hefyd edrychwn ymlaen i weld wynebau newydd yno! Mae'r caffi ar agor o 10 y bore tan 3 y prynhawn o Ddydd Llun i Ddydd Gwener.



## Siopau

Mae'r incwm sydd yn deillio o weithgaredd ein 4 siop yng Nghaernarfon, Llangefni, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog yn ein galluogi i godi arian yn annibynnol er mwyn cynnal ein gwasanaethau. Mae pob ceiniog yn cael ei wario'n lleol i bobl leol. Diolch i bawb am ein cefnogi yn ystod y flwyddyn.

Bu 2016-17 yn flwyddyn o gryn newidiadau o ran sawl siop Age Cymru Gwynedd a Môn.

**Caernarfon** Yn ystod Mehefin 2016 ail-leolwyd siop Caernarfon i adeilad 39 Stryd Llyn, Caernarfon. Mae'r lleoliad newydd yma ynghanol y dref mewn lleoliad hwylus i bobl alw i mewn ac yn ganolfan i'n gwasanaethau yswiriant. Bu i ni hefyd i agor uned derbyn a didoli rhoddion yn Uned 14, Parth 5, Ystad Cibyn, Caernarfon (sydd hefyd yn gartref i'r cynllun Men's Shed).



**Llangefni** Penderfynwyd yn ystod 2016-17 i ail-leoli y siop yn Llangefni fyddai yn golygu symud y siop i adeilad ar y Stryd Fawr fyddai gyda swyddfeydd ar y llawr cyntaf. Bydd y datblygiad yma yn sicr yn rhoi gwell presenoldeb i ni ar yr Ynys.

## Blaenau Ffestiniog

Yn ystod Ionawr 2017, bu i berson arbennig iawn ffarwelio gyda Age Cymru Gwynedd a Môn. Penderfynodd Mona Williams, oedd wedi gwirfoddoli fel rheolwr y siop ym Mlaenau Ffestiniog am flynyddoedd lu, ymddeol o'r rôl honno. Hoffem ddiolch yn fawr i Mona am yr holl waith caled, amhrisiadwy dros yr holl flynyddoedd.

Mae ei hymrechion i sicrhau llwyddiant y siop wedi golygu creu arian sylweddol sydd yn ei dro wedi ein galluogi i ariannu ein gwasnaethau amrywiol yn lleol.



# System pryniant electroneg a Rhodd Cymorth

Yn ystod 2016-17 aethom ati i fuddsoddi mewn system tiliau electroneg newydd yn ein siopau sydd hefyd yn ymgorffori y fenter Rhodd Cymorth.




A wyddoch drwy arwyddo fyny am Rhodd Cymorth gyda Age Cymru Gwynedd a Môn, gallwn ni wneud 25 ceiniog ychwanegol am bob £1 a gynhyrchir gan eich rhoddion? Ni fydd yn costio dim ceiniog i chi! Cyn belled eich bod yn talu treth incwm, gallwn hawlio arian gan HMRC ar eich rhan.

# Masnachu

Mae'r incwm sydd yn deillio o'r gweithgareddau masnachu megis y caffis, y gwasanaeth yswiriant ac yr offer hybu annibyniaeth a werthwn, yn ein galluogi i godi arian yn annibynnol er mwyn cynnal ein gwasanaethau. Mae pob ceiniog yn cael ei wario'n lleol i bobl leol.

Mae'n bwysig hefyd adrodd fod yr elfen fasnachu bellach yn dod o dan yr is-gwmni Age Cymru Gogledd Masanachol Cyf.

Diolch i bawb sydd wedi cefnogi ein siopau drwy roddion neu brynu nwyddau yn y siopau ac/ neu yswiriant yn ystod y flwyddyn.




# Cynnyrch Yswiriant

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn wedi datblygu ystod eang o gynnyrch a gwasanaethau wedi'u llunio'n arbennig ar gyfer pobl dros 50 mlwydd oed.

# Offer hybu annibynniaeth

Mae Age Cymru Gogledd Masnachol Cyf yn is-gwmni i Age Cymru Gwynedd a Môn ac wrth gydweithio â Age UK Enterprises wedi gwrando ar anghenion ein cwsmeriaid am nifer o flynyddoedd ac mae'r adborth hynny yn tystio fod mwy a mwy o bobl yn bryderus wrth golli hyder ac annibynniaeth o fewn a thu allan i'w cartrefi.

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn wedi bod yn cydweithio âg amryw o bartneriaid er mwyn cynnig cynnyrch rhagorol, am bris rhesymol, sydd hefyd yn cynorthwyo ac yn hyrwyddo annibyniaeth. Mae'r cynnyrch yn cynnwys lifftiau grisiau, 'mobility scooters' ag offer clyw yn ogystal ag amryw o offer eraill. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r swyddfa yn 39 Stryd Llyn Caernarfon.

**Cofiwch bod comisiwn ar unrhyw werthiant o'r uchod yn cael eu hailgyfeirio yn ôl i Age Cymru Gwynedd a Môn sydd yn ei dro yn ein cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr yn ein cymunedau.**

# Cynllun Angladdau

Wrth i ni fynd yn hŷn, rydym i gyd yn wynebu heriau newydd, ac efallai hyd yn oed salwch, unigrwydd neu dlodi. Yn Age Cymru Gwynedd a Môn, ein nod yw galluogi pobl hyn i garu blynyddoedd hwyr bywyd. O ymgyrchu am well gwasanaethau, i ddarparu cymorth a chefnogaeth, gallwn helpu pawb i fanteisio i'r eithaf ar flynyddoedd hwyr bywyd. Fe wnaethom gyflwyno Cynllun Angladdau Oedran Prydain yn ôl yn 1988 oherwydd dywedodd pobl wrthym fod costau angladd yn codi yn achos pryder.

Mae cynllun angladd yn ffordd synhwyrol a syml o ofalu am dreuliau a threfniadau angladd a hynny ymlaen llaw. Mae'n debyg i wneud Ewyllys neu yswiriant bywyd. Wedi'r cyfan, pan fyddwch yn gadael Ewyllys, byddwch yn darparu ar gyfer eich anwyliaid a rheswm arall i sicrhau bod gofal wedi ei gymryd hefyd o'ch trefniadau angladd. Yn hytrach na gadael lwmp swm i'ch anwyliaid gallwch chi eu diogelu rhag costau angladd cynyddol a'r pryder a straen ychwanegol o drefnu angladd.

Bob blwyddyn mae costau angladdau wedi parhau i gynyddu, ac mae'n duedd y rhagwelir i barhau. Cost gyfartalog angladd yn 2014 oedd £3,590 a disgwylir iddo godi i £ 4,500 erbyn 2019. Felly, cyn gynted ag y byddwch chi'n cymryd Cynllun rhagdaledig, po fwyaf yw'r arbed posibl. Mae Cynllun Angladdau Age UK yn eich helpu i ddiogelu rhag cynnydd mewn costau angladd trwy warantu i dalu costau'r gwasanaethau angladd a gynhwysir yn y Cynllun ar brisiau heddiw. Telir arian Cynllun Angladd yn uniongyrchol i'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Cynlluniau Angladdau Oedran DU ac mae arian yn cael ei gadw mewn Cronfa Ymddiriedolaeth a reolir yn annibynnol, wedi'i sicrhau yn erbyn cynnydd economaidd a gostyngiadau economaidd. Mae'r arian yn y Gronfa Ymddiriedolaeth wedi'i neilltuo yn benodol ac dim ond i'w dalu i'r cyfarwyddwr angladdau pan fydd y angladd yn ofynnol. Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn diwallu'r holl ofynion a bennwyd gan yr Awdurdod Cynllunio angladd er mwyn sicrhau diogelwch cwsmeriaid.

Mae Cynllun Angladdau Age UK yn gofalu am y trefniadau ar gyfer eich angladd ac mae staff yno i helpu a chefnogi'ch teulu drwy'r broses gyfan. Mae cymryd Cynllun yn osgoi'r risg o ddiffyg arian o gynilion neu fuddsoddiadau. Mae'n gwarantau i gwrdd â chost lawn y gwasanaethau a gynhwysir yn y cynllun, ni waeth beth yw cyfradd chwyddiant nawr neu yn y dyfodol. Mae hefyd yn sicrhau na fydd yn rhaid i deulu a ffrindiau sydd yn mynd drwy brofedigaeth orfod gofidio am dalu am gostau'r gwasanaethau angladd oherwydd byddwch eisoes wedi gofalu amdanynt. Gallwch ddewis talu'r Cynllun trwy gyfandaliad neu gyda misol hyblyg rhandaliadau gyda derbyniad gwarantedig ar gyfer pobl dros 50 oed heb unrhyw gwestiynau meddygol neu iechyd.

Credwn mai Cynllun Angladd Oedran y DU yw'r ffordd orau o roi arian ar wahân i angladd. Gyda chyfraddau llog ar lefel mor isel, mae arbedion, buddsoddiadau neu yswiriant bywyd 50+ yn anhebygol o barhau i gadw fyny gyda costau angladd! Dewch draw i'n swyddfa leol am sgwrs a gwybodaeth bellach neu i ofyn am eich pecyn gwybodaeth am ddim trwy gysylltu â ni ar 01286 685 918 a gofyn am Nerys Williams neu Gwilym Jones.



# Nôd 8: Trafnidiaeth

Mae trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol yn hanfodol bwysig wrth helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth a'u lles wrth iddynt heneiddio. Gall rhwydweithiau trafnidiaeth sicrhau bod cymunedau wedi'u cysylltu'n dda a bod gwasanaethau a cyfleusterau priodol i bobl hŷn. Heb hyn, mae mwy mewn risg o brofi unigrwydd.

Mae rhwydweithiau trafnidiaeth lleol dibynadwy a hygyrch yn mynd yn gynyddol arwyddocaol wrth i bobl heneiddio. Mae dwy ran o dair o bensiynwyr sengl yng Nghymru heb gar ac mae llawer o bobl hŷn yn dibynnu ar wasanaethau bws cyhoeddus i'w cludo.

Mae'n hanfodol fod pobl hŷn yn gallu prynu bwyd, cael sylw meddygol, rheoli eu harian a chael cysylltiad cymdeithasol. Mae rhain yn nodweddion hanfodol a phwysig i bobl wrth fynd yn hŷn ac y dylent fod yn flaenoriaeth uchel mewn polisiau trafnidiaeth

Trefnwyd 83 o deithiau eleni gan ddefnyddio ein tri bws mini. Mae'r teithiau wedi amrywio o wahanol weithgareddau ond i enwi ychydig, mynd i weld sioeau, blasu gwîn, siopa, cinio allan a llawer mwy. Cost y bws ydi 75c y milltir.

Am fwy o fanylion neu i logi bws cysylltwch â 01286 677 711.



## Staff

Prif Swyddog
Eleri Lloyd Jones

Dirprwy Brif Swyddog / Rheolwr Heneiddio'n dda (wedi gadael swydd Ionawr 2017)
Stephen Williams

Rheolwr Busnes a Datblygu
Aled Evans

Rheolwr prosiect Cadwyn Môn (wedi gadael swydd Mawrth 2017)
Helen Ellis

Cydlynwyr Cadwyn Môn (wedi gadael swydd Mawrth 2017)
Ionwen Ewing & Gladys Jones

Swyddog Gweinyddol Cadwyn Môn
Dawn Carden (wedi gadael swydd Mawrth 2017)

Rheolwr Masnachu
Nerys Williams

Swyddog Masnachu
Marian Williams

Rheolwr Gofal Cartref
Thelma Parry

Home Care Supervisor
Beverley Rowlands
Melissa Rowlands

Rheolwr Cyngor a Gwybodaeth
Ann Parry

Rheolwr Swyddfa
Elaine Williams

Swyddog Ariannol/Gweinyddol
Sioned Jones (wedi gadael swydd Mai 2017)

Swyddog Personel
Elen Jones

Swyddog Masnachu a Budd-daliadau
Gwilym Jones

Swyddog Men's Shed
Nicola Jennings

Cydlynydd Men's Sheds
James Jones

Swyddog Datblygu
Maldwyn Roberts

Swyddog Lleisiau Lleol
Sandra Roberts

Cydlynydd Eiriolaeth
Sylvia Targett

Swyddog Croeso/ Gweinyddol
Ruth Jones

Rheolwyr Siopau Elusen
Caernarfon
Gillian Naylor & Ffion Parry (cymhorthydd)
Llangefni
Margaret Thomas
Blaenau Ffestiniog
Mona Williams (ymddeol Ionawr 2017)
Arwel Jones
Porthmadog
Dorothy Murchie

Swyddog Dosbarthu
John Taylor

Rheolwyr Caffis
Elaine Jones
Collette Donaldson
Meryl Williams

## Cadeirydd
Dafydd Iwan

## Is-gadeirydd
Cledwyn Williams

## Trysorydd
Alwyn Jones

## Ymddiriedolwyr

Gwilym Evans
Wynne Williams
Meinir Owen
Anwen Hughes

**Bancwyr**
HSBC - 24 y Maes, Caernarfon
**Brocwr**
Hargreave Hale Ltd
Bangor

## Ein Gwasanaethau

- Cyngor a Gwybodaeth
- Gwasanaeth Glanhau
- Gwasanaeth Budd-daliadau
- Gwasanaeth Eiriolaeth
- Gofal Dydd
- Heneiddio'n Dda
- Cynllun Siopa Gwynedd
- Clybiau Cinio
- Gwasanaeth Eistedd
- Hyfforddiant Technoleg a Gwybodaeth
- Fforymau
- Yswiriant
- Cymorthfeydd Cyfreithiol
- Caffi a Chanolfan galw mewn Hafan Bangor
- Siopau Elusen
- Gwasanaeth Caffi
- Torri Ewinedd Traed
- Gofal Personol
- Cyllid Iach
- Gwirfoddoli
- Men's Sheds

## Cyfrifwyr
A Hughes-Jones
Dyson & Co
Chartered Accountants
Capel Moreia,
South Penrallt,
Caernarfon

Gwynedd a Môn
age Cymru

## AGE CYMRU GWYNEDD A MON

### Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Ar Fawrth 31, 2017

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd a'r cyfrifon ac adroddiad yr archwilwyr am y cyfnod yn diweddu Mawrth 31, 2017.

Mae'r adroddiad yma yn cydsynio efo gofynion Deddf Cwmniau 2006 a dylid ei ddarllen ynghyd ag adroddiad blynyddol llawn yr Ymddiriedolwyr a gwblhawyd gan ddilyn Datganiad Arferion Cyfrifo Elusennau.

**Prif Weithgareddau**

Prif weithgaredd y cwmni oedd paratoi cymorth a chefnogaeth i'r henoed.

**Ymddiriedolwyr**

Roedd y canlynol yn ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn.

Dafydd Iwan
Gwilym Ellis Evans
Owen Alwyn Jones
Huw Williams (Wedi Ymddeol 25/2/2017)
Robert Cledwyn Williams
Victor Wynne Williams
Meinir Owen
Anwen Hughes (Penodwyd 15/6/2016)

**Datganiad Or Datguddiad O Wybodaeth i'r Archwilwyr**

Cyn belled ac mae'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth yn berthnasol i'r archwiliad (fel y diffinwyd gan Adran 418 o'r Deddf Cwmniau 2006) ble nad yw'r Archwilwyr yn ymwybodol ohono, ac mae pob ymddiriedolwr wedi cymeryd yr holl gamau y dylent fel ymddiriedolwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad ac i sefydlu bod archwilwyr y cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth yma.

**Datganiad Budd Cyhoeddus**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio a'u dyletswydd ag adran 17(5) o Deddf Elusennau 2011. Maent wedi ystyried y canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ac yn credu eu bod wedi dilyn ei cyfarwyddyd yn yr achos hwn. Mae'r gweithgareddau a wnaeth yr Elusen yn ystod y flwyddyn er mwyn hyrwyddo eu diben elusennol wedi eu amlinellu yn adroddiad llawn yr ymddiriedolwyr, ac mae'r Ymddiredolwyr yn fodlon fod ei gweithgareddau o fudd i'r cyhoedd.

**Archwilwyr**

Mae A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni wedi datgan eu parodrwydd i barhau yn eu swydd.

Mae'r adroddiad wedi cael ei pharatoi ar sail y ddarpariaeth arbennig sydd o fewn Rhan 15 o Ddeddf Cwmniau 2006 yn ymwneud a cwmniau bach.

**AGE CYMRU GWYNEDD A MON**

**Datganiad O Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar datganiadau ariannol yn unol a'r rheolau perthnasol.

Mae'n ofynol o dan rheolau cwmniau i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y rheolau yma mae'r Ymddiriedolwyr wedi ethol i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol a Safonau Cyfrifyddol Y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol Y Deyrnas Unedig a chyfraith perthnasol). O dan gyfraith Cwmniau ni ddylai yr Ymddiriedolwyr gymeradwyo datganiadau ariannol os nad ydynt yn fodlon eu bod yn dangos darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ac or elw neu golled am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynol i'r Ymddiriedolwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddol priodol a'u defnyddio'n gyson;

- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;

- datgan os ydi'r polisiau cyfrifyddol wedi eu dilyn, neu datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiad materol yn y cyfrifon;

- paratoi'r cyfrifon ar y sail busnes byw os nad ydyw hi yn amhriodol i dybio y bydd y cwmni yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol sy'n dangos safle ariannol y cwmni a'u galluogi i baratoi cyfrifon sy'n cydsynio gyda Deddf Cwmniau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

## Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Age Cymru Gwynedd a Mon

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Age Cymru Gwynedd a Mon am y cyfnod hyd 31ain Fawrth 2017 sydd yn cynnwys y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol, Cyfrif Elw a Cholled, Datganiad o Gyfanswm Enillion a Cholledion, Y Fantolen ar nodiadau perthnasol. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol a gofynion cyfreithiol a Ymarferion Cyfrifo Safonol y Deyrnas Unedig (UK GAAP), gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon'.
Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi ar gyfer aelodau'r cwmni elusennol, fel corff, ac yn unol a Pennod 3 Rhan 16 o Ddeddf Cwmniau 2006. Mae ein gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac i ddim pwrpas arall.
Hyd at yr eithaf a ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw aelodau'r cwmni elusennol fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr Ac Archwilwyr**

Fel sydd wedi ei esbonio yn fwy cyflawn yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar dudalen 2, yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr y Cwmni elusennol i bwrpas rheolau cyfreithio Cwmniau) sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am fod yn sicr eu bod yn dangos darlun gwir a theg.
Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a mynegi barn ar y cyfrifon yn unol a gofynion cyfreithiol a rheolau perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau yma yn gofyn i ni gydymffyrfio gyda safonau moesegol i archwilwyr sydd wedi eu penodi gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio, gan gynnwys 'safonau moesegol Bwrdd Ymarferion Archwilio - Darbodion ar gael i Gwmniau Llai (Diwygiedig)', yn yr amgylchiadau sydd wedi eu nodi yn nodyn 1 o'r datganiadau ariannol.

**Sail Ein Barn**

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth yn berthnasol i'r symiau ar datgeliadau yn y datganiadau ariannol sydd yn ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi trwy dwyll, neu gamgymeriad.

Mae hyn yn cynnwys asesiad o: a yw'r polisiau cyfrifyddol yn addas i amgylchiadau'r cwmni ac wedi cael eu defnyddio yn gyson a'u datgelu'n ddigonol: asesiad o'r amcangyfrifon sylweddol a wnaethpwyd gan yr Ymddiriedolwyr: a chyflwyniad cyffredinol a roddwyd o'r datganiadau ariannol. Yn ogystal, rydym yn darllen y wybodaeth ariannol ac arall yn adroddiad yr ymddiriedolwyr er mwyn datgelu unrhyw anghysondeb sylweddol i'r cyfrifon rydym yn eu harchwilio ac i ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd yn amlwg yn sylweddol anghywir wrth ystyried, neu yn sylweddol anghyson gyda'r wybodaeth a gawsom wrth berfformio ein archwiliad. Os i ni ddod ar draws anghysondeb neu cam-ddatganiad sylweddol, mi fyddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein adroddiad.

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Yn ein barn, mae'r cyfrifon

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Cwmni ar Fawrth 31, 2017, o'r adnoddau i mewn, y defnydd o adnoddau yn cynnwys incwm a gwariant am y cyfnod oedd yn terfynu pryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol a Ymarferion Cyfrifo Cyffredinol y Deyrnas Unedig sydd yn briodol i gwmniau bach;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag amodau Deddf Cwmniau 2006.

**Barn ar faterion sydd yn ofynol o dan y Deddf Cwmniau 2006**

Yn ein barn mae'r wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol sydd dan sylw'r datganiadau ariannol yn gyson a'r datganiadau ariannol.

**Materion y mae'n ofynol i ni adrodd arnynt trwy eithriad.**

Nid oes ganddom unrhyw fater i adrodd i chi ynglyn a'r materion canlynol mae'n ofynol i ni adrodd gan Ddeddf Cwmniau 2006, os yn ein barn:

- nid yw'r cwmni wedi cadw cofnodion ariannol digonol, neu nid ydym wedi derbyn gwybodaeth digonol o adrannau nad ydym wedi ymweld a nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno gyda'r cofnodion ariannol; neu
- nid yw datgeliadau cyfreithiol sydd yn berthnasol ag ennillion Ymddiriedolwyr wedi ei datgelu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd ei angen er mwyn cyflawni ein archwiliad; neu
- nid oedd gan yr Ymddiriedolwyr y hawl i baratoi datganiadau ariannol ac adroddiad Ymddiriedolwyr yn unol a rheolau perthnasol i gwmniau bach a manteisio ar yr hawl i beidio paratoi Adroddiad y Cyfarwyddwyr ac Adroddiad Strategol.

## AGE CYMRU GWYNEDD A MON

### Cyfrif Incwm A Gwariant Am y Flwyddyn yn Diweddu Ar Fawrth 31, 2017

| | Nodiadau | 2017 | 2016 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Incwm | | 1,215,943 | 935,580 |
| Gwariant Uniongyrchol | | 1,271,704 | 918,708 |
| **(Diffyg)/Gweddill Gros** | | (55,761) | 16,872 |
| Incwm o fuddsoddiadau | | 8,290 | 8,805 |
| Elw ar werthiant Asedau Sefydlog | | 4,439 | - |
| **(Diffyg)/Gweddill Am Y Flwyddyn** | | (43,032) | 25,677 |

### Datganiad o Gyfanswm Enillon a Cholledion Cydnabyddedig am y Flwyddyn yn Diweddu Mawrth 31,2017

| | Nodiadau | 2017 | 2016 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| (Diffyg)/Gweddill am y Flwyddyn | | (43,032) | 25,677 |
| Enillion / (Colledion) ar Fuddsoddiadau heb eu gwireddu | 16 | 25,401 | (19,862) |
| **Cyfanswm yr Enillion am y Flwyddyn** | | (17,631) | 5,815 |

## AGE CYMRU GWYNEDD A MON

### Datganiad O'r Gweithgareddau Ariannol Am y Flwyddyn yn Diweddu Mawrth 31, 2017

| Incwm | Nodiadau | Cronfeydd Heb Eu Cyfyngu £ | Cronfeydd Wedi Eu Cyfyngu £ | Cyfanswm Cronfeydd 2017 £ | Cyfanswm Cronfeydd 2016 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhoddion a Chymynroddion | | | | | |
| Gan Is-Gwmni | | 77,000 | - | 77,000 | 2,000 |
| Eraill | | 5,431 | - | 5,431 | 86,570 |
| Gweithgareddau Elusennol | 3 | 955,693 | 90,824 | 1,046,517 | 626,010 |
| Gweithgareddau Masnachol Eraill | 4 | 86,995 | - | 86,995 | 221,000 |
| Incwm Buddsoddiadau | | 274 | 8,016 | 8,290 | 8,805 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 1,125,393 | 98,840 | 1,224,233 | 944,385 |
| **Costau** | | | | | |
| Codi Arian | 6 | 56,748 | - | 56,748 | 91,280 |
| Gweithgareddau Elusennol | 5 | 1,058,703 | 151,814 | 1,210,517 | 827,428 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 1,115,451 | 151,814 | 1,267,265 | 918,708 |
| **Incwm / (Cost) Net** | 2 | 9,942 | (52,974) | (43,032) | 25,677 |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd | | 18,936 | (18,936) | - | - |
| Cynnydd mewn buddsoddiadau | 16 | - | 25,401 | 25,401 | (19,862) |
| Cynnydd mewn cronfeydd | | 28,878 | (46,509) | (17,631) | 5,815 |
| Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen | | 336,648 | 308,736 | 645,384 | 677,652 |
| **Cronfeydd i Gario Ymlaen** | | 365,526 | 262,227 | 627,753 | 683,467 |

## AGE CYMRU GWYNEDD A MON

### Mantolen Ar Fawrth 31, 2017 (Rhif Cwmni : 07621068)

| | Nodiadau | 2017 | | 2016 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau Cyffwrddadwy | 8 | | 404,380 | | 363,752 |
| Buddsoddiad mewn is-gwmni | 15 | | 1 | | 1 |
| Buddsoddiadau | | | 213,059 | | 188,889 |
| | | | 617,440 | | 552,642 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 9 | 42,624 | | 141,916 | |
| Arian Yn Y Banc Ac Mewn Llaw | | 280,602 | | 166,312 | |
| | | 323,226 | | 308,228 | |
| **Credydwyr:** | | | | | |
| yn ddyledus o fewn y flwyddyn | 10 | (174,439) | | (98,708) | |
| **Asedau Cyfredol Net** | | | 148,787 | | 209,520 |
| **Credydwyr:** | | | | | |
| yn ddyledus mewn mwy na blwyddyn | 11 | | (70,916) | | (78,695) |
| Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau | 17 | | (36,058) | | (38,083) |
| **Asedau Net** | 13 | | 659,253 | | 645,384 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Heb Eu Gyfyngu | | | 365,526 | | 336,648 |
| Wedi Eu Gyfyngu | 16 | | 262,227 | | 308,736 |
| | | | 627,753 | | 645,384 |

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail y darpariaeth arbennig sydd o fewn Rhan 15 o Ddeddf Cwmniau 2006 yn ymwneud a cwmniau bach.

AGE CYMRU GWYNEDD A MON

Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Ar Fawrth 31, 2017

## 1 Polisiau Cyfrifydda

*Y Sail Gyfrifyddol*

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol a gofynion Adran 1A "Unedau Llai" o Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmniau 2006. Mae'r cyfrifon wedi ei paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

Mae gwerth buddsoddiadau cronfa John Trevor Roberts yn y cyfrifon yn adlewyrchu eu gwerth ar y farchnad.

*Trosiant*

Nid yw trosiant yn cynnwys Treth ar Werth.

*Grantiau*

Mae grantiau cyllid yn cael eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod maent yn dderbynadwy. Bydd grantiau cyfalaf hefyd yn cael eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod maent yn dderbyniadwy yn unol a Datganiad Arferion Cyfrifo Elusennau (SORP 2015). Mae grantiau a dderbynir ymlaen llaw yn cael eu cario ymlaen i'w cymharu efo'r gwariant priodol.

*Gwariant*

Mae adnoddau sydd yn cael eu gwario yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn y maent yn ddyledus ac yn cynnwys TAW na all yr Elusen ei hawlio yn ol.

Mae adnoddau a wariwyd ar gronfeydd wedi eu cyfyngu yn ymwneud a gwariant uniongyrchol ar y cynlluniau hynny yn ogystal a chanran or gorbenion yn seiliedig ar oriau y cleientau.

*Asedau Sefydlog Cyffwrddadwy*

Fe gynhwysir asedau yn ol eu cost.

Fe ddibrisir yr offer dros amcangyfrifiad o'u hoes economaidd ddefnyddiol drwy'r dull mantol yn lleihau fel a ganlyn;

| | |
|---|---|
| Gwellianau Adeiladau ar Les | dros gyfnod y les |
| Moduron | 25% |
| Offer | 20% |
| Gosodion a Man daclau | 20% |

Mae gwariant ar itemau cyfalaf llai £100 yn cael ei trin fel gwariant yn y flwyddyn.

*Buddsoddiadau*

Gosodir gwerth buddsoddiadau ar bris y farchnad ar ddyddiad y fantolen llai unrhyw ostyngiad parhaol. Bydd cynnydd neu ostyngiad yn y gwerth yn cael ei adlewyrchu yn y datganiad o'r gweithgareddau ariannol am y cyfnod.

*Cyfraniadau pensiwn*

Mae'r cwmni yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau wedi eu diffinio. Mae'r cyfraniadau am y y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant.

*Asedau Ar Les*

Fe gynhwysir asedau sefydlog a brynwyd o dan gynlluniau cyllido yn y Fantolen yn ol eu cost llai dibrisiad. Fe osodir y llog i'r Cyfrif Incwm a Gwariant. Fe osodir taliadau o dan gynlluniau les gweithredol yn uniongyrchol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

*Archwilwyr*

Yn gyffredin a nifer o fusnesau o'n maint a natur, rydym yn defnyddio ein archwilwyr i baratoi a chyflwyno ffurflenni priodol i'r awdurdodau treth ag i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi y datganiadau ariannol.